TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

BTEC Award in Motorsport Engineering Level 3

Yn gryno

Bwriad y cwrs hwn yw darparu'r wybodaeth sylfaenol a'r sgiliau penodol y mae eu hangen i fodloni gofynion diwydiannau peirianneg chwaraeon moduro/mecanyddol modern.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych eisiau gyrfa mewn peirianneg

... Ydych yn danbaid dros chwaraeon moduro

... Ydych yn weithgar ac yn dda am ddatrys problemau

Beth fyddaf yn ei wneud?

Dyma un o'r diwydiannau mwyaf cyffrous a mwyaf ei dwf yn y DU, gyda mwy a mwy o gysylltiadau rhwng y byd chwaraeon moduro a sectorau peirianneg perfformiad uchel eraill, fel y sectorau modurol, amddiffyn, morol ac awyrofodol. Gyda'r buddsoddiad o £120 miliwn ym

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mharc Technoleg Fodurol Glynebwy a Chylchffordd Cymru, ni fu erioed well adeg i astudio cwrs mewn peirianneg chwaraeon moduro.

Ochr yn ochr ag astudiaethau damcaniaethol, ceir nifer o weithgareddau allgyrsiol y gellir cymryd rhan ynddynt. Yn ystod eich blwyddyn gyntaf, cewch gyfle i adeiladu Caterham o ddim. Yn ystod eich ail flwyddyn, cewch gyfle i fod yn rhan o Rasio Coleg Gwent, lle y byddwch yn cystadlu yn y Cwpan Radical SR1. Ar ôl ichi gwblhau'r cwrs, mae gennym nifer o lwybrau y gallwch eu dilyn i'r byd gwaith, boed yn llwybr prentisiaeth neu'n llwybr gradd prifysgol.

Ar y cwrs hwn byddwch yn astudio:

Blwyddyn 1

Diploma Atodol mewn Peirianneg (60 credyd)

Gweithrediad Systemau Siasis Cerbydau
Arferion Gweithdai Chwaraeon Moduro
Paratoi ac Archwilio Cerbydau Chwaraeon Moduro
Egwyddorion, Gweithrediad, Gwasanaethu a Thrwsio Injans Cerbydau
Ymarfer Proffesiynol a Logisteg ar gyfer Chwaraeon Moduro
Mathemateg ar gyfer Technegwyr Peirianneg

Ynghyd â 30 credyd ychwanegol

Dylunio Peirianegol
Defnyddio Mathemateg a Gwyddoniaeth Cerbydau
Arlunio Peirianegol ar gyfer Technegwyr

Blwyddyn 2

Prosiect Cerbyd
Diagnosio a Chywiro Diffygion mewn Systemau Cerbydau
Prosesau a Thechnoleg Saernïo
Systemau Brecio a Llywio/Crogiant Cerbydau Ysgafn
Egwyddorion Trydanol ac Electronig ar gyfer Technoleg Cerbydau
Nodweddion Deunyddiau Peirianegol a'u Defnydd
Swyddogaeth a Gweithrediad Systemau Chwistrelliad Petrol
Technoleg Weldio

Er mwyn datblygu eich sgiliau ymarferol, bydd modd ichi ddefnyddio gweithdy o'r radd flaenaf a chymryd rhan mewn llu o ddigwyddiadau chwaraeon moduro drwy'r DU. Hefyd, cewch

gymwysterau ychwanegol mewn Peirianneg Gyfansawdd trwy ddefnyddio ein cyfleusterau hyfforddiant cyfansawdd, sydd ar flaen y gad o fewn y sector.

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gofrestru, byddwch angen fan leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Mathemateg Gradd B ac os oes modd Gwyddoniaeth Gradd B.

Bydd gennych ddiddordeb ysol mewn peirianneg, yn ogystal â brwdfrydedd a chymhelliant i ddatblygu eich sgiliau ymarferol a dadansoddol. Mae'n ofynnol ymrwymo'n llwyr i fynychu'r cwrs, ac mae parchu eraill, brwdfrydedd ynglyn â'r pwnc a hunangymhelliant hefyd yn ofynnol. Mae meddu ar frwdfrydedd a'r agwedd iawn yn hollbwysig i ddarpar gyflogwyr.

Disgwylir ichi barhau â'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun. Hefyd, disgwylir ichi fynychu cynifer o rasys â phosibl a rhwydweithio gyda chymaint ag y bo modd o bobl.

Byddwch yn cael eich asesu trwy gyfrwng gwaith cwrs, portffolio ac asesiad ymarferol. Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill:

Diploma Atodol Lefel 3 mewn Technoleg Cerbydau (Chwaraeon Moduro) ynghyd â 30 credyd ychwanegol (Blwyddyn 1)
Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Technoleg Cerbydau (Chwaraeon Moduro) (Blwyddyn 2)
Bagloriaeth Cymru

Mathemateg a Saesneg (byddwch yn mynychu dosbarthiadau os cawsoch radd is na Gradd C yn y pynciau hyn ar lefel TGAU)
Cymwysterau perthnasol eraill i wella eich set sgiliau

Beth sy'n digwydd nesaf?

Cymhwyster ar lefel prifysgol mewn Peirianneg Chwaraeon Moduro neu bwnc arall yn ymwneud â pheirianneg
Prentisiaeth Uwch
Gwaith

Gwybodaeth Ychwanegol

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Bydd angen ichi brynu Cyfarpar Diogelu Personol a fydd yn costio oddeutu £40.00.